**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

07 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf ynghylch Cytundeb y DU-Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

Dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i ddod i gytundeb rhyngwladol sy'n rhwymo'r DU gyfan, gan nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i datganoli, yn unol â pharagraff 10(1) o atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae gan y Senedd y pŵer i basio cyfreithiau sy'n ymwneud â chadw a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, gan fod paragraff 10(3) o atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn eithrio'r swyddogaethau hyn o'r elfennau nas datganolwyd ym mharagraff 10(1).

Mae hyn yn golygu bod buddiannau cyfreithlon a hanfodol gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn amodau a phrosesau negodi unrhyw gytundebau rhyngwladol sy'n galw am weithredu mewn meysydd datganoledig.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i wrthwynebu'r syniad o gynnwys pwerau cydredol megis y rhai yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022. Mae safbwynt Llywodraeth y DU o ran cymryd y pwerau hyn yn gwbl amhriodol ac yn amharchu egwyddor datganoli.

Ni roddodd y Senedd ei chydsyniad i Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol. Fodd bynnag, Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaethau gweithredol perthnasol bellach. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau, felly, i wneud deddfwriaeth o dan y Ddeddf i weithredu honno

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a Chytundeb y DU-Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol mewn perthynas â Chymru, a byddant yn cyflawni'r swyddogaethau hynny yn gyfrifol.

Dymuniadau gorau,

**MARK DRAKEFORD**